



## **EITEM AR YR AGENDA: 8**

### **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU PANEL GWEITHREDOL**

**20 Gorffennaf 2015**

### **YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD I GEFNOGI'R CYNLLUN CYFUNOL I LEIHOU RISG A GWELLA 2016-17**

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

#### **Diben yr Adroddiad**

- 1 Adolygu'r ymatebion i strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori 2015-16 mewn perthynas â'r Cynllun i Leihau Risg a Gwella er mwyn goleuo'r gwaith o ddylunio strategaeth 2016-17.

#### **Cefndir**

- 2 Dan Fesur Llywodraeth Leol 2009, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel un o'r Awdurdodau Gwella Cymreig, wneud y canlynol:
  - Penderfynu ar ei amcanion gwella ei hun dan unrhyw un o saith elfen sydd wedi eu diffinio ar gyfer gwella. Er bod gofyn iddo osod amcanion gwella bob blwyddyn, nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn, nac ychwaith fod yn rhaid eu cyflawni o fewn blwyddyn;
  - Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei amcanion am gyfnod o amser. Nid oes amser penodol ar gyfer ymgynghoriadau, ond rhyw 12 wythnos y mae'r rhan fwyaf yn ei bara. Rhaid i'r ymgynghoriadau gael dyddiad cychwyn a dyddiad cau pendant.

## **Gwybodaeth**

- 3 Er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau statudol rhoddodd yr Awdurdod gefnogaeth i strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd wedi ei hanelu at annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y gwaith o lunio dyfodol gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.
- 4 Diben y strategaeth ymgynghori oedd nodi sut y gallai aelodau ATAGC gael barn y cyhoedd ar eu hamcanion drafft cyn dewis y ffordd ymlaen ar gyfer dyfodol gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.
- 5 Roedd y broses yn bwysig wrth lunio'r amcanion drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi yn y Cynllun i Leihau Risg a Gwella ac er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd yn y penderfyniadau a wneir.
- 6 Goleuwyd y strategaeth gan Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfranogaeth Cymru (2011), a gefnogwyd gan Brif Weinidog Cymru. Dyma'r egwyddorion:
  - cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth
  - annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny
  - cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol
  - gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol
  - ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall
  - ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan
  - galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol
  - rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol
  - mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad
  - dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu.

## **Gwerthuso'r Broses Ymgysylltu ar gyfer 2015-16**

- 7 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar amcanion gwella 2015-16 rhwng mis Hydref 2014 a mis Ionawr 2015.

- 8 Lluniwyd dogfen ymgynghori dan y teitl 'Eich Gwasanaeth Chi, Eich Dewis Chi' i esbonio'r sefyllfa ariannol gyfredol ac i wahodd pobl i ddatgan eu cefnogaeth i un o blith tri opsiwn posibl o ran cyllid. Roedd pobl yn gallu gwneud hyn drwy ddilyn dolen i holiadur electronig ar 'hwb' ymgynghori.
- 9 Rhoddodd y Gwasanaeth wybod i bobl am yr ymgynghoriad drwy nifer o ffyrdd gwahanol:
- cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghorol ar wefan yr Awdurdod, a rhoddwyd gwybod yn electronig ei bod ar gael i 844 o randdeiliaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys sefydliadau sy'n bartneriaid inni.
  - defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad. Cyrhaeddodd y negeseuon Saesneg 19,033 o ffrydiau newyddion a chael eu rhannu 173 o weithiau, a chyrrhaeddodd y negeseuon Cymraeg 16,107 o ffrydiau newyddion a chael eu rhannu 46 o weithiau.
  - hefyd, aeth pobl at gwestiynau'r ymgynghoriad ar yr 'hwb' ymgynghori 553 o weithiau yn y fersiwn Saesneg a 91 o weithiau yn y fersiwn Gymraeg.
  - rhoddodd newyddion y BBC sylw i'r ymgynghoriad ddwywaith – unwaith ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori ac unwaith yn nes at y diwedd. Ymddangosodd erthyglau yn y papurau newydd dyddiol ac wythnosol lleol yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd.
  - darparwyd sesiynau briffio wyneb yn wyneb ar gyfer y chwe chynghor sir yng Ngogledd Cymru.
- 10 Cafodd yr ymgynghoriad nifer fawr o ymatebion o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol pryd y cafwyd 30 o ymatebion ar gyfartaledd. Arweiniodd y strategaeth ddiwygiedig at dderbyn 291 o ymatebion, a hynny gan groestoriad eang o bobl a oedd yn cynnwys rhaniad cytbwys rhwng gweithwyr y gwasanaeth a phobl eraill.

- 11 Mae'r cynnydd yn cael ei briodoli i natur cynnwys yr ymgynghoriad, yn ogystal â'r fethodoleg amrywiol a ddefnyddiwyd, gan gynnwys defnyddio hwb ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol.
- 12 Roedd y strategaeth yn fesuradwy, sef bod gan bob un o'r prif sianelau cyfathrebu ei metrigau gwerthuso penodol ei hun. Canfuwyd y cynulleidfaoedd targed drwy fapio rhanddeiliaid a oedd yn cwmpasu trigolion Gogledd Cymru, sefydliadau sy'n bartneriaid inni, Llywodraeth Cymru, gwleidyddion lleol, staff y gwasanaeth.

### **Cyfathrebu Allanol**

- 13 Darparwyd yr holl gyfathrebu allanol yn ddwyieithog ac mewn amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft Braille, arolwg dros y ffôn. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i anghenion pob cynulleidfa, a chwmpaswyd amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys e-bost/MailChimp, y cyfryngau cymdeithasol, gwefan y gwasanaeth, ac mewn digwyddiadau cymunedol.
- 14 Gofynnwyd i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub fod yn rhagweithiol wrth annog rhanddeiliaid i ymgysylltu.

### **Cyfathrebu Mewnol**

- 15 Roedd y Cyfathrebu Mewnol yn arwyddocaol i gefnogi unrhyw benderfyniadau a wneir gan ATAGC. Darparwyd gwybodaeth i'r staff mewn dewis o ieithoedd, Cymraeg neu Saesneg, drwy gyfrwng y fewnrwyd, cylchlythyr/cylchgrawn staff, diweddariad/briffiad y Prif Swyddog, briffiadau mewnol ac ymweliadau â gorsafoedd.

### **Dylunio strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd ar gyfer 2016-17**

- 16 Gan gadw mewn cof lwyddiant cymharol strategaeth 2015-16 argymhellir bod yr elfennau mwy llwyddiannus hynny yn cael eu hailadrodd eleni ond y byddwn hefyd yn ceisio gwella llif yr wybodaeth i'r cyhoedd drwy gyfathrebu'n fwy deniadol yn weledol.

- 17 Dengys dadansoddiad fod yna gydberthyniad rhwng cymhlethdod cymharol y prif negeseuon a pha mor hawdd y gall y cyhoedd gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch ymgysylltu. Yn ôl ymchwil mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub, wedi mynd ati'n ddiweddar i ddefnyddio clipiau fideo byrion ar gyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon i gynyddu cyfraddau cyfranogi ac ymateb.

## **Argymhellion**

- 18 Bod yr Aelodau'n:
- (i) nodi llwyddiant strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd 2015-16;
  - (ii) cefnogi'r egwyddor fod yn rhaid i'r dulliau i'w defnyddio ar gyfer strategaeth 2016-17 geisio cynyddu neu wella ymatebion ac adlewyrchu natur yr amcanion wedi i'r Awdurdod gytuno arnynt.